

Rhif: WG36442



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

Dyddiad cyhoeddi: 30 Tachwedd 2018  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Mawrth 2019

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y gwaith o ddatblygu Cod Ymarfer ar Gyflenwi Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Bydd yn cefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau awtistiaeth Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016.

**Sut i ymateb**

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi a dychwelyd y ffurflen, erbyn canol nos ar y dyddiad cau,

Neu mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan, a gellir ei dychwelyd atom, erbyn canol nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost i:

[YmgynghoriadCodYmarfer.Awtistaeth@llyw.cymru](mailto:YmgynghoriadCodYmarfer.Awtistaeth@llyw.cymru)

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion Cysylltu**

**Y Gangen Polisi Awtistiaeth  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddiennw, ticiwch y blwch.

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddi eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD,

CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

## Rhagair gan y Gweinidog

Mae Llywodraeth Cymru yn gadarn yn ein hymrwymiad i wella gwasanaethau awtistiaeth.

Gwnaethom gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig (ASD) yn 2008, a dangosodd gwerthusiad annibynnol fod y strategaeth wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac i ddarparu hyfforddiant ac offer datblygu ac adnoddau.

Gwnaethom wrando pan ddywedwyd wrthym fod llawer o bobl awtistig yn dal i'w chael hi'n anodd cael gafael ar y gefnogaeth roedd ei hangen arnynt, er gwaetha'r cynnydd a wnaed. Adnewyddwyd y strategaeth genedlaethol yn 2016 gyda chynllun cyflenwi cynhwysfawr sy'n dilyn dull gweithredu cyfannol, wedi'i seilio ar anghenion, wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau awtistiaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y gefnogaeth yn 2016, gwnaethom ddechrau cyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol yn raddol, ac mae hwn bellach ar gael mewn pum rhanbarth yng Nghymru a bydd ar gael ym Mae'r Gorllewin a Gorllewin Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar yr un pryd, gwnaed buddsoddiad sylweddol gennym mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant a phobl ifanc er mwyn gwella'r gwaith asesu a'r amseroedd aros am ddiagnosis.

Yn aml, nid yw pobl awtistig yn ffitio'n dwt o fewn ffiniau gwasanaethau. Mae'n hanfodol bod gan y staff y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau i allu darparu'r gefnogaeth orau bosibl. Rydym yn cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth er mwyn i ni allu cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol a'u partneriaid yn deall eu dyletswyddau presennol i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion, gan gynnwys cefnogi gofaluwr. Yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn awgrymu lle y gallai'r Cod osod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithredu. Byddem yn croesawu barn ar ein cynigion a pha un a oes mwy y gellid ei gynnwys er mwyn atgyfnerthu'r gefnogaeth i bobl awtistig. Bydd y Cod yn nodi'r gofynion a roddir ar awdurdodau cyhoeddus yn y meysydd canlynol:

1. Trefniadau ar gyfer asesu a diagnosis.
2. Trefniadau ar gyfer cael gafael ar ofal a chefnogaeth.
3. Trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.
4. Trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro a chyfraniad rhanddeiliaid.

Bydd darparwyr gwasanaethau a phobl awtistig yn deall y safonau gwasanaeth a ddylai gael eu cyflenwi ym mhob un o'r meysydd hyn. Yn hollbwysig, drwy ddeddfwriaeth bresennol, bydd gan y Cod bwerau adfer cryf a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd pan nad yw'r gwasanaethau yn bodloni safonau boddhaol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi, cydymffurfio â gofynion i gynnal asesiadau'n brydlon a chasglu data fel sy'n ofynnol. Byddwn yn mynnu bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn ystyried awtistiaeth fel thema allweddol annibynnol wrth gynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth yn y dyfodol, a fydd yn cael eu cyhoeddi mewn cynlluniau ardal lleol.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cael ei chyhoeddi ar adeg pan fo llawer o drafod a dadlau am ddeddfwriaeth benodol i awtistiaeth yng Nghymru. Mae'r Cod hwn, ynghyd â

deddfwriaeth rymus megis y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi'r holl rym statudol sydd ei angen arni i ysgogi newid. Nid deddfwriaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn gwneud cynnydd cyflymach, ond yn hytrach, gweithredu'r gwasanaethau a'r cynlluniau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd mewn modd effeithiol. Mae'r Cod rydym yn ymgynghori arno yn hanfodol wrth lywio hyn.

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AC**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

**Cynnwys**

**Cyflwyniad  
Diben**

**Cefndir a Chyd-destun**

**Pŵer i Gyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth**

**Egwyddorion**

**Adrannau ar gyfer y Cod:**

- 1. Trefniadau ar gyfer asesu a diagnosis**
- 2. Trefniadau ar gyfer cael gafael ar ofal a chefnogaeth**
- 3. Trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant**
- 4. Trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro a chyfraniad rhanddeiliad**

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

**Atodiadau**

- 1. Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar ASD**
- 2. Taflen Adnoddau ASD Cenedlaethol**

**Rhestr Termau**

## **Cyflwyniad**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar yr hyn y dylem ei gynnwys yn y Cod Ymarfer, gan gynnwys yr amrywiaeth o ddyletswyddau rydym o'r farn y dylid eu cynnwys, a fydd yn galluogi gwasanaethau i ddatblygu ond na fyddant yn llesteirio arloesedd y gwasanaethau rydym yn eu sefydlu nawr wrth iddynt esblygu. Nodau arfaethedig y Cod yw codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl awtistig a chynnig eglurder o ran y lefel o gefnogaeth y dylent ddisgwyl ei derbyn.

## **Diben**

Diben y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yw sicrhau y gweithredir blaenoriaethau awtistiaeth Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016. Rhoddir canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff iechyd y GIG ar lefel ac amrywiaeth y gwasanaethau a'r gefnogaeth y disgwylir iddynt eu darparu i bobl ag awtistiaeth o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Lle bydd gan unigolion anghenion gofal a chymorth cymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 (Deddf GCLIC), bydd y canllawiau a'r Codau Ymarfer perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf hon yn gymwys. Lle bydd gan blant ac oedolion awtistig anghenion cymorth addysgol ychwanegol, bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig yn gymwys a lle bydd anghenion iechyd meddwl ychwanegol, rhaid cadw at y dyletswyddau perthnasol yn Neddf Iechyd Meddwl 1997 a Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010.

Bydd y Cod hefyd yn adlewyrchu gwerthoedd Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sydd â'r nod o wella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'n nodi'r pum ffordd o weithio sydd eu hangen i gyrff cyhoeddus gyrraedd saith nod llesiant (Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang). Mae'r dull hwn o weithredu yn gyfle i feddwl yn arloesol, gan adlewyrchu'r ffordd rydym yn byw ein bywydau a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein gwasanaethau cyhoeddus.

## **Cefndir a Chyd-destun**

### *Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig*

Cafodd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD ei ddiweddarau ym mis Tachwedd 2016, a cheir cynllun cyflawni cysylltiedig sy'n nodi'r camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd i wella gwasanaethau awtistiaeth. Wrth wraidd y gwaith cyflenwi, mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd sydd wedi'i gyflwyno'n raddol gyda chymorth o £13 miliwn hyd at 2021. Cafodd yr adroddiad blynyddol cyntaf ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018 a chyhoeddwyd Cynllun Cyflenwi wedi'i ddiweddarau hefyd, a oedd yn cynnwys ymrwymadau newydd, gan gynnwys cyhoeddi Cod Ymarfer ar wasanaethau awtistiaeth yn ystod tymor y Cynulliad hwn, a

gwella'r gwaith monitro drwy ddatblygu cofrestr diagnosis awtistiaeth ar gyfer meddygon teulu.

### *Y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol*

Mae'r Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol yn rhoi cymorth strategol a gweithredol ar gyfer cyflenwi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD yn llwyddiannus. Mae'r tîm yn datblygu ac yn cynnal Gwefan ASDinfoWales, sy'n adnodd ar-lein am ddim sy'n darparu amrywiaeth eang o ddeunyddiau a chyngor i bobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr, awdurdodau lleol, lleoliadau addysg, byrddau iechyd, cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau eraill. Mae ystod gyfan yr adnoddau sydd ar gael yn cynnwys rhaglenni datblygu i ysgolion a lleoliadau eraill, cyngor ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, canllawiau ar ôl diagnosis i rieni, plant ac oedolion. Gallwch weld y wefan yn [www.asdinfo.wales.co.uk](http://www.asdinfo.wales.co.uk).

### *Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol*

Nododd y Cynllun Gweithredu Strategol fylchau mewn gwasanaethau ar gyfer rhai pobl awtistig, yn enwedig gan fod llawer ohonynt efallai nad oedd eu hasesiadau wedi nodi bod ganddynt anghenion cymorth gofal cymdeithasol cymwys o dan Ddeddf GCLIC. Rydym yn cydnabod, serch hyn, y gallai fod gan lawer o bobl awtistig anghenion cymorth sylweddol, a allai, os nad eir i'r afael â nhw, esblygu ac arwain at fod angen ymyriadau gwasanaeth mwy dwys. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol yn wasanaeth ataliol yn aml, sydd ar gael i bobl o bob oed, sy'n darparu cefnogaeth a chymorth wedi'i dargedu i bobl awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn creu timau awtistiaeth arbenigol yn y gymuned ym mhob rhanbarth, gan ddarparu ystod o wybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth. Mae hyn yn cynnwys asesiadau diagnostig i oedolion a chymorth i rieni, teuluoedd ac oedolion. Y bwriad yw bod y gwasanaeth yn ychwanegu at wasanaethau presennol, yn enwedig ar gyfer y rheini na allant gael gafael ar wasanaethau gofal cymdeithasol ffurfiol. Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, gan gynnwys manylion cyswllt rhanbarthol, ar gael ar wefan ASDinfo.wales.

Gwnaethom ddatblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig mewn ymateb i adborth gan bobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr a ddywedodd wrthym fod angen mwy o gefnogaeth arnynt ond nad oeddent yn aml yn gymwys i'w chael gan wasanaethau gofal cymdeithasol ffurfiol. Roedd eu hadborth yn dweud wrthym fod angen mwy o wasanaethau a chymorth yn y meysydd canlynol, y mae'r gwasanaeth yn eu darparu erbyn hyn.

- Gwasanaethau Asesu Oedolion.
- Materion yn ymwneud ag ymddygiad.
- Materion emosiynol megis pryder a dicter.
- Datblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw bob dydd.
- Cael mynediad i weithgareddau hamdden.
- Cymorth i rieni a theuluoedd.



## *Gwasanaethau Niwroddatblygiadol i Blant a Phobl Ifanc*

Rydym yn sicrhau gwelliannau i wasanaethau niwroddatblygiadol i blant a phobl ifanc fel rhan o'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP). Mae'r rhaglen hon yn gwella gwasanaethau asesu a diagnostig ar gyfer pob cyflwr niwroddatblygiadol ac mae'r gwasanaethau wedi'u cysylltu ar lefel leol er mwyn sicrhau perthynas gref â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Rydym hefyd yn gweithio i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn darpariaeth y gellid bod wedi'u creu ar gyfer grwpiau o unigolion nad ydynt efallai yn gymwys i gael cymorth gan y naill wasanaeth na'r llall. Rydym yn chwilio am ffyrdd i gael cysylltiad agosach rhwng y gwasanaeth hwn a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn y tymor hwy. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y datblygiadau a gyflawnwyd yn Adran Un ar drefniadau ar gyfer asesu a diagnosis i blant, pobl ifanc ac oedolion.

## *Diwygio ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol*

Er mwyn gwella cymorth addysgol i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed, mae ein gwaith diwygio ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol, a ategir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn cyflwyno system newydd sy'n canolbwyntio ar sicrhau y bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd ei angen, gan gynnwys rhai ag awtistiaeth, yn cael y cymorth hwnnw, a'i fod wedi'i gynllunio'n briodol a'i ddiogelu, a bydd ganddynt gynllun statudol a hawliau apelio cyfartal. Mae'r Ddeddf yn rhoi dysgwyr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Er ei bod yn cwmpasu diwallu anghenion plant a phobl ifanc awtistig, nid yw'n gwahaniaethu rhwng gwahanol anghenion dysgu ychwanegol gan ei bod yn ceisio sicrhau y caiff yr holl anghenion eu diwallu'n gyfartal ac yn gynhwysfawr.

## *Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol*

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yn gorff a gydnabyddir yn eang, sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth awdurdodol ar amrywiaeth o faterion iechyd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae NICE wedi llunio nifer o ganllawiau ar ddiagnosisio a rheoli awtistiaeth. Diben canllawiau NICE yw ysgogi a mesur gwelliannau ansawdd a disgrifio nodweddion gwasanaeth da. Dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ystyried y canllawiau wrth gynllunio gwasanaethau awtistiaeth gan eu bod yn feincnod cydnabyddedig o'r hyn y dylai gwasanaethau da anelu i'w darparu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Autism spectrum disorder in adults: diagnosis and management \(CG142\)](#)<sup>1</sup>
- [Autism spectrum disorder in under 19s: recognition, referral and diagnosis \(CG128\)](#)<sup>2</sup>
- [Autism spectrum disorder in under 19s: support and management \(CG170\)](#)<sup>3</sup>

<sup>1</sup> NICE (2016) Autism spectrum disorder in adults: diagnosis and management (CG142)

<sup>2</sup> NICE (2017) Autism spectrum disorder in under 19s: recognition, referral and diagnosis (CG128)<sup>2</sup>

<sup>3</sup> NICE 2013 Autism spectrum disorder in under 19s: support and management (CG170)

Mae NICE hefyd wedi cyhoeddi **Safon Ansawdd ar Awtistiaeth**<sup>4</sup>, sy'n cwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion, pobl ifanc a phlant ag awtistiaeth. Mae'n cynnwys asesu a diagnosis anhwylderau'r sbectrwm awtistig, a gofal a chymorth i bobl sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae'n disgrifio gofal o ansawdd uchel mewn meysydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer gwella.

### *Mynediad cyfartal*

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswyddau clir ar gyrff sector cyhoeddus i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl â Nodweddion Gwarchoddedig penodol. Y nodweddion hyn yw – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. Ceir dyletswyddau penodol ynghylch darparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys pobl awtistig, i'w helpu i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Gallai hyn olygu cynnig gwasanaeth mewn ffordd wahanol neu ddarparu cymorth ychwanegol, megis drwy ystyried anawsterau a all fod gan bobl awtistig o ran prosesu synhwyrdd a chyfathrebu llafar ac ysgrifenedig. Caiff y dyletswyddau hyn eu hatgyfnerthu drwy Ddeddf GCLIC a Deddf y GIG.

Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn cefnogi Egwyddorion a Chonfensiynau a Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig fel y'u nodir yn Neddf GCLIC, Rhan 2, Cod Ymarfer. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru wedi'i chynrychioli'n llawn wrth gyflwyno adroddiadau rhyngwladol. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau i hawliau dynol. Mae Parti Gwladol y DU wedi llofnodi a chadarnhau Confensiynau a Chyfamodau canlynol y Cenhedloedd Unedig:

- Cyfamod ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Cyfamod ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
- Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil
- Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl
- Confensiwn ar Ddileu Pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Confensiwn yn erbyn Artaith
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae gwybodaeth ar y Cyfamodau a'r Confensiynau ar gael ar **wefan y Cenhedloedd Unedig** <http://www.un.org/en/index.html>

### *Menywod ac Awtistiaeth a Hunaniaeth o ran Rhywedd*

Yn hanesyddol, bu'r gyfradd o ddiagnosis awtistiaeth mewn merched a menywod yn is o lawer nag mewn bechgyn a dynion. Er bod yr ymchwil yn gyfyngedig, mae tystiolaeth a thystiolaeth glinigol anecdotaidd yn awgrymu bod nifer o ffactorau yn gyfrifol am y gwahaniaeth mewn cyfraddau diagnosis.<sup>5</sup> Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd y mae merched a menywod yn cyflwyno'u hunain; yn aml, maent yn llwyddo i guddio'r

<sup>4</sup> NICE 2014 Autism Quality Standard (QS51) <https://www.nice.org.uk/guidance/qs51/chapter/introduction>

<sup>5</sup>Y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth 'Gender and Autism. <https://www.autism.org.uk/about/what-is/gender.aspx> cyrchwyd 29 Hydref 2018

ymddygiad yn well drwy arsylwi ar eraill o'u cwmpas a'u hefelychu. Awgrymir hefyd fod yr adnoddau diagnostig safonol wedi'u teilwra'n fwy tuag at adnabod awtistiaeth glasurrol a welir yn amlach mewn bechgyn a dynion, tra bod awtistiaeth mewn merched a menywod yn gallu amlygu'i hun mewn ffyrdd mwy cynnil, a all ei gwneud yn anoddach deall sut maent yn rheoli heriau awtistiaeth yn eu bywydau bob dydd. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall y ffordd y mae awtistiaeth yn amlygu'i hun mewn merched a menywod, ac y gall fod ganddynt anghenion cymorth gwahanol. Er enghraifft, gall merched ymddangos fel petaent yn llwyddo'n well i gynnal perthnasau cymdeithasol ond eu bod, mewn gwirionedd, yn blino'u hunain wrth geisio addasu eu hymddygiad eu hunain i efelychu ymddygiad eraill ac ymddygiad mwy derbyniol.

Ceir llenyddiaeth gynyddol hefyd sy'n cysylltu awtistiaeth â dysfforia rhywedd/hunaniaeth o ran rhywedd, â mwy o bobl awtistig yn dweud eu bod yn uniaethu'n seicolegol â rhywedd ar wahân i'w rhywedd adeg eu geni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i wella gwasanaethau hunaniaeth rhywedd yng Nghymru ac wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru Gyfan i ddarparu cyngor, ac mae Tîm Rhywedd Cymru yn cael ei greu a fydd yn gweithredu o Ysbyty Atghrofaol Caerdydd.

#### *Pobl awtistig o gymunedau du, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid*

Gall pobl awtistig o gymunedau du, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu sy'n geiswyr lloches a ffoaduriaid a'u rhieni a'u gofalwyr wynebu heriau ychwanegol wrth gael gafael ar wasanaethau a chymorth. Yn yr adroddiad *Diverse perspectives: The challenges for families affected by autism from Black, Asian and Minority Ethnic communities (2014)*<sup>6</sup> amlygodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yr anawsterau y gall pobl awtistig sy'n byw mewn cymunedau du, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eu hwynebu. Yn gyffredinol, maent yn cael yr un anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau a chymorth â rhannau eraill o'r gymuned ond caiff y sefyllfa ei chymhlethu gan ffactorau megis safbwyntiau diwylliannol ar anabledd mewn rhai cymunedau. Mewn rhai grwpiau, gall fod stigma difrifol yn gysylltiedig â chael plentyn anabl, gyda'r rhieni yn dweud eu bod yn teimlo cywilydd gan fod y gymuned yn eu beio am ymddygiad gwael canfyddedig eu plant awtistig, ac roedd y cymunedau yn aml yn chwilio am iachâd. Gall tybiaethau a rhagfarn ddiwylliannol hefyd gael effaith negyddol, er enghraifft, y canfyddiad bod bechgyn du yn debygol o fod yn aflonyddol gydag anawsterau ieithyddol yn cael eu priodoli ar gam i'r ffaith bod plentyn yn siarad Saesneg fel ail iaith. Dylai darparwyr gwasanaethau fod yn ymwybodol y gall gwahaniaethau diwylliannol gael effaith ar y ffordd y caiff pobl awtistig eu gweld a'u cefnogi, a dylent addasu eu harferion er mwyn cydnabod y gwahaniaethau hyn.

#### *Gwasanaethau Cymraeg*

Dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod gwasanaethau Cymraeg wedi'u cynnwys yn y broses cynllunio a chyflenwi a bod gwasanaethau iaith Gymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb fod angen iddynt ofyn amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau

---

<sup>6</sup>Y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (2014) *Diverse perspectives: The challenges for families affected by autism from Black, Asian and Minority Ethnic communities (2014)*

Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (*Mwy na Geiriau*)<sup>7</sup>.

### *Terminoleg*

Bydd y Cod Ymarfer yn parhau i ddefnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o awtistiaeth, fel y'i nodir yn y Cynllun Gweithredu Strategol.

*“The term autistic spectrum disorders (ASD) is used to describe the group of pervasive developmental disorders characterised by qualitative abnormalities in reciprocal social interactions and in patterns of communication and by restricted, repetitive repertoire of interests and activities.”*

Caiff y termau Anhwylder y Sbectwm Awtistig, awtistiaeth a phobl awtistig eu defnyddio'n gyfnewidiol ar gyfer unigolion ar bob rhan o'r sbectwm awtistig, gan gynnwys y rheini y dywedir ar hyn o bryd fod ganddynt Syndrom Asperger.

Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol eraill ond maent yn cydnabod y bydd gan rai unigolion awtistiaeth ynghyd â chyflyrau eraill sy'n cyd-ddigwydd a all effeithio ar eu hanghenion gofal a chymorth.

Darperir rhestr termau.

---

<sup>7</sup>Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru (2016) ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd (*Mwy na Geiriau*)  
<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

## Pŵer i Gyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

Caiff y Cod Ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth ei gyhoeddi o dan adrannau 145 a 169 o Ddeddf GCLIC 2014 ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod gan y Cod rym cymharol mewn perthynas ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Gall Gweinidogion Cymru yn arfer pŵer cyfarwyddyd dros fyrddau iechyd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer hwn, a byddant yn gwneud hynny.

### Pwerau

Mae Deddf GCLIC ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/enacted>.

Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

[http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/pdfs/ukpga\\_20060042\\_cy.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/pdfs/ukpga_20060042_cy.pdf)

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a geir yn y canllawiau hyn. Nid yw Adran 147 o Ddeddf GCLIC (gwyro oddi wrth ofynion mewn canllawiau) yn gymwys i unrhyw **ofynion** a geir yn y canllawiau hyn. At hynny, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried unrhyw **ganllawiau** a nodir yma.

Wrth arfer eu swyddogaethau iechyd, mae'n **rhaid** i Fyrddau Iechyd Lleol weithredu yn unol â'r **gofynion** sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn. Yn ogystal, mae'n rhaid i fyrddau iechyd ystyried unrhyw **ganllawiau** a nodir yma.

Yn y canllawiau hyn a'r canllawiau statudol, mynegir **gofyniad** fel “rhaid” neu “rhaid ... beidio”. Mynegir **canllawiau** fel “caiff” neu “dylai/ni ddylai”.

Dylid darllen y canllawiau hyn ynghyd â'r Cod Ymarfer perthnasol a chanllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan **Ddeddf GCLIC** i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion pobl ar gyfer cymorth a chefnogaeth, sef:

- Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)
- Rhan 3 Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion)
- Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion)
- Rhan 11 Canllawiau (Amrywiol a Chyffredinol)
- Rhan 9 Canllawiau Statudol (trefniadau partneriaeth)

Datblygwyd y ddogfen hon mewn ymgynghoriad â Grŵp Cynghori ar Weithredu Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2017 i roi cyngor arbenigol ac adborth ar y gwaith o gyflenwi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr grwpiau'r trydydd sector ac

unigolion awtistig a rhieni a gofalwyr. Darparwyd cyngor hefyd gan y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig Rhanbarthol, Swyddogion Arweiniol ASD Awdurdodau Lleol, sy'n gweithio gyda phobl awtistig mewn cymunedau lleol a chlinigwyr arbenigol o Gymuned Ymarfer Diagnostig ASD mewn Oedolion.

### *Rhwymedïau*

Mae dulliau wedi'u cynnwys yn Neddf GCLIC ar gyfer ymyrryd a gorfodi Awdurdodau Lleol i gydymffurfio â'r Cod. Mae Adran 150 yn darparu ar gyfer galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd pe bai awdurdodau lleol yn methu â chydymffurfio â dyletswydd sy'n un o swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol, yn gweithredu'n afresymol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol neu'n methu â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol i safon ddigonol. Ceir darpariaeth wedyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad rhybuddio a chymryd camau pellach ar ffurf camau gorfodi yn erbyn awdurdod lleol.

Yn yr un modd, o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006, ceir darpariaeth ar gyfer gwneud hysbysiad ymyrryd ac i gamau pellach gael eu cymryd pe na bai bwrdd iechyd lleol yn perfformio un neu fwy o'i swyddogaethau'n ddigonol neu o gwbl, neu pe bai methiannau sylweddol yn y ffordd y mae'r corff yn cael ei redeg, a bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn briodol iddynt ymyrryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gallu, ac mae wedi, cymryd camau o dan y deddfau hyn i'w gwneud yn ofynnol i gyrff statudol adolygu a gwella gwasanaethau y canfyddir eu bod yn anfodhaol. Byddai deddfwriaeth annibynnol yn dibynnu ar unigolion i wneud cais am Adolygiad Barnwrol er mwyn herio cydymffurfiaeth.

### **Egwyddorion**

Bydd y Cod yn darparu canllawiau i wasanaethau statudol yn y meysydd canlynol.

1. Trefniadau ar gyfer asesu a diagnosis.
2. Trefniadau ar gyfer cael gafael ar ofal a chefnogaeth.
3. Trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.
4. Trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro a chyfraniad rhanddeiliaid.

## **Deall y dyletswyddau yn y Cod**

Caiff y Cod ei wneud o dan Ddeddf GCLIC a Deddf GIG (Cymru), a gall Llywodraeth Cymru gosod amrywiaeth o ddyletswyddau ar bob sefydliad i'w gorfodi i weithredu. Er eglurder, mae'r dyletswyddau a wnaed o dan wahanol ddeddfwriaeth ac â gwahanol rym wedi'u nodi yn y blychau lliw fel a ganlyn:

### **Gofynion a roddir ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf GCLIC adran 145**

**Rhaid i Awdurdodau Lleol/Rhaid i Awdurdodau Lleol beidio**

### **Gofynion a roddir ar fyrddau iechyd lleol o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006**

**Rhaid i Fyrddau Iechyd/Rhaid i Fyrddau Iechyd beidio**

### **Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol o dan Ddeddf GCLIC adran 145**

**Dylai/Ni ddylai Awdurdodau Lleol**

### **Canllawiau ar gyfer byrddau iechyd lleol o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006**

**Caiff/Dylai/Ni ddylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol**

### **Gofynion a roddir ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar y cyd o dan Ddeddf GCLIC adran 169**

**Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar y cyd/Rhaid i i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar y cyd beidio**

## **ADRAN 1. - Trefniadau ar gyfer asesu a diagnosis**

Mae mynediad at wasanaethau asesu a diagnosis yn gam pwysig wrth ddeall anghenion plant sy'n dangos ymddygiadau a all beri pryder i deuluoedd a/neu wasanaethau gofal, addysg ac iechyd. I oedolion na chawsant ddiagnosis yn blentyn, gall cael asesiad gynnig mewnwelediad i ddeall ei hun a gall fod yn un ffordd o gael gafael ar gymorth priodol.

### *Timau Diagnostig*

Yng Nghymru, timau niwroddatblygiadol sy'n cynnal yr asesiad ac yn diagnosis awtistiaeth mewn plant a phobl ifanc. Mae'r timau hyn hefyd yn gallu asesu ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol sy'n bresennol ar y cyd ag awtistiaeth, megis anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd. Mae'r timau'n dilyn dull amlddisgyblaethol o asesu a diagnosis.<sup>8</sup>

Caiff gwasanaethau diagnostig i oedolion eu darparu gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ym mhob rhanbarth yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn derbyn hunangyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan feddygon teulu ac ymarferwyr eraill. Gellir gweld manylion cyswllt ar gyfer pob gwasanaeth ar wefan Asdinfowales [www.asdinfowales.co.uk](http://www.asdinfowales.co.uk)

### *Llwybrau diagnostig*

Mae llwybrau gwahanol i blant a phobl ifanc ac i oedolion o ran y trefniadau ar gyfer cael gafael ar asesiadau diagnostig ar gyfer awtistiaeth. Gall plant a phobl ifanc gael gafael ar wasanaethau asesu niwroddatblygiadol a gall oedolion gael gwasanaethau asesu drwy'r Gwasanaeth Integredig Cenedlaethol ar gyfer ASD. Mae'r ddau wasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd ac mae'n hanfodol bod y llwybrau wedi'u halinio cymaint â phosibl. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc dros 16 oed.

Dylai gwybodaeth am y llwybrau a sut i gael gafael ar wasanaethau fod ar gael yn hawdd i'r rheini sydd angen eu defnyddio, a dylai hyn gynnwys rhieni, plant a phobl ifanc. Dylai mynediad i'r gwasanaethau fod yn amserol ac yn unol â thargedau a osodwyd i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau yn effeithiol. Dylai gwasanaethau ddisgwyl i'w perfformiad gael ei fonitro ond dylai hyn ymwneud ag ansawdd ac effaith y gwasanaethau a dderbynnir, yn ogystal â thargedau amser aros.

### *Gwasanaethau Asesu Plant a Phobl Ifanc*

Mae'r ffrwd gwaith niwroddatblygiadol y Rhaglen Together for Children and Young People a arweinir gan y GIG, wedi datblygu, ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y rheini â phrofiad byw a'r trydydd sector, lwybr asesu a diagnosis a dogfen ganllaw. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau cyfartal ledled Cymru, mae ei chynnwys wedi'i lywio gan yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf. Er mwyn hyrwyddo mynediad, dylai byrddau iechyd a'u partneriaid sicrhau bod un pwynt mynediad ar gyfer yr asesiad diagnostig ar gyfer yr holl anhwylderau

---

<sup>8</sup><http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/2018-06-07%20ND%20Guidance%20Doc%20Version%2016.pdf>



niwroddatblygiadol, gan gynnwys ASD. Dylai atgyfeiriadau nodi manylion yr arwyddion a'r symptomau, yr effaith ar y gallu i weithredu a ffactorau risg, fel y disgrifir yng nghanllawiau NICE<sup>9</sup>. Dylai'r atgyfeiriad gael ei drafod gan y tîm niwroddatblygiadol a dylid gwneud penderfyniad p'un a oes angen bwrw ymlaen neu a oes angen rhagor o wybodaeth. Er mwyn sicrhau mynediad cyfartal, dylid gwneud pob ymdrech i hwyluso asesiad diagnostig os yw'n briodol, hyd yn oed os na fydd rhywfaint o'r wybodaeth ar gael yn y lle cyntaf.

Lle na chaiff atgyfeiriadau eu derbyn, dylid rhoi eglurhad o'r rhesymeg dros hyn i'r sawl a wnaeth yr atgyfeiriad, ynghyd â chyngor am y wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen er mwyn bwrw ymlaen â'r atgyfeiriad a/neu wasanaeth arall y dylid cyfeirio ato. Disgwylir y bydd protocol lleol yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r plentyn a'r teulu.

Dylai'r broses asesu ar gyfer plentyn a gaiff ei atgyfeirio i dîm niwroddatblygiadol am asesiad ddechrau o fewn 26 wythnos o'r adeg y gwnaeth y gwasanaeth niwroddatblygiadol dderbyn yr atgyfeiriad<sup>10</sup>. Efallai y bydd angen i rai plant gael eu gweld yn gynt na hynny a dylai timau ddatblygu ffyrdd priodol o nodi'r rheini sydd angen asesiad cyflymach.

Dylai'r asesiadau gael eu cynllunio gan y tîm niwroddatblygiadol amlddisgyblaethol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chasglu i greu proffil o anghenion y plentyn, ac ar yr un pryd, sicrhau dull priodol, hyblyg, o ddefnyddio adnoddau. Dylai plant sy'n cael asesiad gael eu hasesu hefyd ar gyfer unrhyw anghenion iechyd meddwl neu gorfforol cysylltiedig. Bydd angen i staff asesu fod yn effro i effaith profiadau niweidiol mewn plentyndod a/neu unrhyw ystyriaethau diogelu.

Bydd gweithiwr proffesiynol (neu weithiwr proffesiynol) sydd wedi ymwneud â'r broses asesu fel arfer yn cyfleu canlyniad yr asesiad i'r teulu wyneb yn wyneb, a lle y bo'n briodol, i'r plentyn. Pan na fydd hyn yn digwydd, dylid rhoi rhesymau clir dros hyn. Yn dilyn hyn, caiff ei gyfleu yn ysgrifenedig, a lle y rhoddir cydsyniad i wneud hynny, caiff ei rannu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cefnogi'r plentyn.

Er mwyn parhau i gynnal dull o weithio sy'n canolbwyntio ar y plentyn, dylid llunio proffil o gryfderau ac anawsterau'r plentyn; a bydd unrhyw gyngor neu argymhellion yn cael eu cynnwys.

I blant a gaiff diagnosis o ASD, dylid cynnig apwyntiad dilynol ag aelod priodol o'r tîm os yw'r anghenion clinigol yn awgrymu bod ei angen.

Ar ôl yr asesiad, dylid ystyried y canlynol:

- Gallai'r asesiad a'r proffil nodi'r angen am ymyriadau penodol. Dylai'r ymyriadau hynny fod yn gymesur â'r angen a nodwyd, yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau canlyniadau y gellir eu nodi, dylent gael eu cyflawni o fewn amserlen a nodwyd ac ni ddylent gael eu hysgogi gan y diagnosis yn unig.

---

- Dylid rhoi gwybodaeth ac addysg ar nodweddion creiddiol diagnosis y plentyn. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig, sesiynau un i un neu weithdai. Os na roddir diagnosis niwroddatblygiadol, dylid rhoi gwybodaeth berthnasol arall. Dylid rhoi gwybodaeth am geisio ail farn os yw'n ofynnol.
- Gellir cyfeirio at gymorth perthnasol a gwybodaeth arall hefyd. Gallai hyn gynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a nodir.
- Dylai'r ymyriadau a gynghorir ac a gynigir gan wasanaethau niwroddatblygiadol fod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau bosibl.

Dylai pob rhanbarth gael rôl swyddog arweiniol er mwyn sicrhau bod y llwybr cenedlaethol yn cael ei gynnal a'i ddatblygu mewn partneriaeth â theuluoedd er mwyn cynnal safonau cyson ac i hyrwyddo gwelliant pellach. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion niwroddatblygiadol plentyn neu berson ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i'r llwybr.

Mae'r canllawiau yn awgrymu hefyd y dylai'r wybodaeth a gesglir gan fyrddau iechyd ddarparu darlun clir o'r galw am y gwasanaeth, faint sy'n ei ddefnyddio a'r gwaith o'i gyflenwi. Dylid rhoi dulliau ar waith i adolygu'r llwybr diagnostig, ei addasu yn ôl yr angen a'i gynnal. Mae'n bwysig bod y dulliau o fesur y canlyniadau yn dangos ac yn amlygu ansawdd y gwasanaethau, yn hytrach na dim ond nodi sawl diagnosis a wnaed.

#### *Gwasanaethau asesu oedolion.*

Drwy ymwybyddiaeth gynyddol o awtistiaeth, gall llawer o oedolion, na chydnabyddir eu bod yn awtistig yn ystod eu plentyndod, ei chael hi'n ddefnyddiol iawn cael gafael ar wasanaethau diagnostig, am fod diagnosis yn gallu eu helpu i wneud synnwyr a deall eu canfyddiadau eu hunain o fethu ag ymdopi mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac efallai, o gael anawsterau synhwyraidd. Mae'n bosibl hefyd yr ymdriniwyd â'u hanghenion yn amhriodol drwy wasanaethau iechyd meddwl neu anabledau dysgu. Yng Nghymru, nododd y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf ar gyfer ASD nad oedd dealltwriaeth dda o ddiagnosis awtistiaeth mewn oedolion a bod y gwasanaethau a ddarparwyd yn fratiog. Cymerwyd camau i wella'r cymorth drwy'r rhwydwaith diagnostig clinigol i oedolion a chynllun monitro cymunedol a oedd â'r nod o ddarparu cymorth lefel isel i oedolion awtistig. Y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith hwn, ac arfer da a dynnwyd o wasanaethau eraill ledled Cymru oedd sail y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig sydd bellach yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, gan sefydliad gwasanaeth asesu a diagnosis penodol ar gyfer ASD.

Elfen hollbwysig o'r gwasanaeth hwn yw creu dull gweithredu cenedlaethol o ran gwasanaethau diagnostig, a sefydlwyd cymuned ymarfer o ddiagnosis clinigol i oedolion er mwyn i glinigwyr arbenigol weithio gyda'i gilydd i rannu eu profiadau a'u harbenigedd i wella ansawdd y gwasanaethau asesu diagnostig a'r gwasanaethau ôl-diagnostig. Datblygwyd llwybr diagnostig i oedolion, ac yn yr un modd â'r llwybr i blant, dylid ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu gwelliannau ac arfer da.

## *Pwy ddylai wybod am y llwybrau?*

Mae canllawiau NICE yn cynghori y dylai gweithwyr proffesiynol perthnasol (gofal iechyd, goal cymdeithasol, addysg a'r sector gwirfoddol) fod yn ymwybodol o'r llwybr awtistiaeth lleol a sut i gael gfael ar wasanaethau diagnostig. Dylai byrddau iechyd sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal sylfaenol yn ymwybodol o'r llwybr lleol a'r broses atgyfeirio leol yn eu hardaloedd a dylent enwebu unigolion i fod yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig i blant a phobl ifanc ac i oedolion.

## *Y Safon Amser Aros ar gyfer Asesiadau Plant a Phobl Ifanc*

Rydym wedi nodi'r angen i wella gwasanaethau diagnostig, a rhaid cael dull o fesur gwelliannau. Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyflwyno safon amseroedd aros o 26 wythnos ar gyfer asesiadau plant a phobl ifanc, fel dull cadarn o gasglu gwybodaeth ddibynadwy a chyson. Mae Datganiad Ansawdd NICE<sup>11</sup> yn nodi bod '*evidence of local arrangements to ensure that people with possible autism referred for a diagnostic assessment by an autism team have the assessment **started** within 3 months of their referral*'. Gan fod byrddau iechyd yn amrywio o ran eu canfyddiad o'r adeg y tybir bod asesiad wedi dechrau, cytunwyd mai'r dull mesur mwyaf cyson a diamwys fyddai cofnodi bod dyddiad yr apwyntiad wyneb yn wyneb cyntaf ar ôl yr atgyfeiriad o fewn 26 wythnos. Disgwylir y byddai byrddau iechyd, yn ystod yr wythnosau cyn yr apwyntiad cyntaf, wedi casglu'r wybodaeth berthnasol gan ysgolion a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â datblygiad y plentyn, i gefnogi ymarferwyr a'r teuluoedd yn ystod yr apwyntiad cyntaf. Mae rhai gwasanaethau hefyd wedi datblygu cymorth a gwybodaeth cyn yr asesiad.

Mae'r adborth rydym wedi'i dderbyn o'r cyfnod peilot yn ein galluogi i ddatblygu'r safon ar gyfer y dyfodol, â'r nod o'i ymestyn i wasanaethau asesu oedolion.

## *Mynediad i Ddiagnosis yn yr Ystad Ddiogel*

Dylai unigolion sydd wedi'u cadw yn y carchar yr ymddengys bod angen iddynt gael asesiad awtistiaeth gael mynediad i wasanaethau diagnostig a chymorth ar ôl diagnosis. Mae'n hanfodol bod gan staff mewn lleoliadau diogel, yn enwedig staff iechyd, y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau er mwyn nodi pryd y dylid cyfeirio unigolyn i gael asesiad. Mae Tîm Awtistiaeth CLILC wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn lleol i ddatblygu hyfforddiant staff mewn rhai sefydliadau diogel, ac mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda'r gwasanaethau brys i lunio a chyflwyno pecyn hyfforddi i staff y gwasanaethau brys.

## *Atgyfeiriad ar gyfer Asesiad Gofal Cymdeithasol*

Efallai y daw'n amlwg yn ystod asesiad diagnostig fod gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth cymwys. Gan ddibynnu ar gymhlethdod yr anghenion hyn, mae'n bosibl y gellid eu diwallu drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor neu wasanaethau ataliol ar gyfer anghenion lefel is, y gellir eu darparu drwy wasanaethau cyffredinol neu benodol.

---

<sup>11</sup> NICE (2014) Autism Quality Standard (QS51) <https://www.nice.org.uk/guidance/qs51/chapter/Quality-statement-1-Diagnostic-assessment-by-an-autism-team>. Cyrchwyd 29 Hydref 2018

## Dyletswyddau Drafft

### Rhaid i Awdurdodau Lleol

- Sicrhau bod pobl ag awtistiaeth yn ymwybodol o'r hawl i gael gafael ar asesiad anghenion ac asesiad gofalwyr i ofalwr. Dylai'r broses o sicrhau asesiad, alinio â'r broses ddiagnostig a chael ei chynnig ar y cam diagnosis, gan wneud atgyfeiriad yn ôl yr angen.

### Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol:

- Ddarparu mynediad i wasanaeth a all roi diagnosis o anhwylder y sbectwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig, sy'n ystyried canllawiau arfer da NICE ar gyfer proses amlddisgyblaethol.
- Sicrhau bod llwybrau asesu a diagnosisio i blant a phobl ifanc ac i oedolion, sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE yn cael eu darparu, eu cyhoeddi a'u hadolygu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod ymarferwyr gofal sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu yn cael eu hysbysu am lwybrau atgyfeirio ar gyfer asesiadau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.
- Sicrhau bod amseroedd aros o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf i blant, pobl ifanc ac oedolion yn cydymffurfio â'r safonau amseroedd aros cenedlaethol cyfredol ar gyfer asesiadau a diagnosis awtistiaeth.
- Dynodi unigolion â phrif gyfrifoldeb am ddatblygu, cynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig i blant a phobl ifanc ac i oedolion.
- Lle y gwneir diagnosis o awtistiaeth, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu ar gyfer y rhan fwyaf o blant, eu rhiant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol yn brydlon er mwyn sicrhau y gellir cynnal asesiadau cefnogi diagnosis os yw hynny'n briodol.
- Lle y gwneir diagnosis o awtistiaeth, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu ar gyfer y rhan fwyaf o blant, eu rhiant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol yn brydlon er mwyn

sicrhau y gellir cynnal asesiadau gofal a chymorth os yw hynny'n briodol.

- Lle y cynhelir asesiad awtistiaeth ond na roddir diagnosis o awtistiaeth, os bydd yr asesiad yn nodi ei fod yn ofynnol, gyda chydsyniad yr unigolyn (neu riant neu ofalwr plentyn) gwneir atgyfeiriad i wasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn cynnal asesiad o anghenion gofal cymdeithasol.
- Lle bo gan bobl awtistig gyflyrau eraill hefyd, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai fod llwybrau ar gael i'w gwneud yn bosibl iddynt gael gafael ar wasanaethau cymorth a all ddiwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn cysylltiad ag awtistiaeth.
- Sicrhau bod gwasanaeth asesu a diagnosis awtistiaeth ar gael i unigolion sydd wedi'u dal yn yr ystâd ddiogel.

### **Dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol**

- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnosis awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am anghenion plant ac oedolion sydd wedi cael eu diagnosis o awtistiaeth a lle y nodir y gall fod angen cymorth ychwanegol.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnosis awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am anghenion plant ac oedolion sydd heb gael diagnosis o awtistiaeth ond lle y gwneir atgyfeiriad lle y nodir bod hynny'n angenrheidiol.
- Sicrhau bod llwybrau o fewn yr ystad ddiogel i wneud yn siŵr bod pobl ifanc ac oedolion sydd wedi'u cadw yn yr ystad yn gallu cael gafael ar wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol.

### **Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar y cyd**

- Lle bo gan bobl awtistig gyflyrau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai llwybrau fod ar gael i'w gwneud yn bosibl iddynt gael gafael ar wasanaethau asesu a all ddiwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn cysylltiad ag awtistiaeth.

## **ADRAN 2. Trefniadau ar gyfer cael gafael ar ofal a chefnogaeth**

Mae effaith awtistiaeth yn amrywiol iawn a bydd gan bob person awtistig anghenion a dewisiadau unigryw. Bydd rhai unigolion yn gallu byw'n annibynnol, tra bydd eraill, yn enwedig pan fydd ganddynt gyflyrau eraill sy'n cyd-ddigwydd neu anghenion iechyd meddwl, angen cymorth arbenigol.

Bydd yr adran hon o'r Cod yn disgrifio'r ffordd y bydd y dyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a nodir yn Deddf GCLIC a'r Codau Ymarfer cysylltiedig yn berthnasol i blant ac oedolion awtistig a'u gofalwyr. Mae'n crynhoi'r llwybrau ar gyfer cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl a chymorth i'r rheini sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd.

Ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae Deddf GCLIC a'r Codau cysylltiedig yn rhoi canllawiau manwl ar y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid eu rhoi ar waith i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n diwallu eu hanghenion a nodwyd mewn tri phrif faes

- gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- asesu ar gyfer gofal a chymorth.
- diwallu anghenion a chynllunio gofal a chymorth.

Un o nodau canolog Deddf GCLIC yw rhoi pwyslais ar wasanaethau ataliol, i gefnogi unigolion i fyw bywydau llawn ac i atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth ac ymyriadau mwy dwys. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi cael ei ddylunio'n benodol i ddarparu ymyriadau cynnal er mwyn atal anghenion rhag datblygu. Gall y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig helpu i adeiladu a chynnal cydnerthedd unigol a chynnig cymorth os bydd anawsterau'n codi. Cydnabyddir y gall fod angen gofal statudol a gwasanaethau cymorth ar rai pobl awtistig, yn enwedig os oes ganddynt anghenion iechyd ychwanegol.

Caiff yr adran hon o'r Cod awtistiaeth ei hategu gan Godau Ymarfer Ddeddf GCLIC yn Rhan 2, Rhan 3 a Rhan 4, a fydd yn cynnig mwy o fanylion am y dyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol mewn perthynas â holl ddinasyddion Cymru, gan gynnwys pobl awtistig y gall fod angen gofal a chymorth arnynt. Dyma nhw yn gryno:

Mae Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol) yn cynnwys:

- Darpariaethau yn ymwneud â swyddogaethau cyffredinol awdurdod lleol, gan gynnwys asesu anghenion gofal a chymorth poblogaeth megis y rheini sy'n hyrwyddo llesiant, a hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr a'r trydydd sector.
- Darpariaethau ar gyfer y rheini sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf, gan gynnwys y dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

- Darpariaeth a chanllawiau ar y ffordd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ataliol.
- Darpariaethau a chanllawiau ar y ffordd y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i bobl am ofal a chymorth; a chymorth wrth gael gafael ar ofal a chymorth.

### *Y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth*

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n galluogi pawb i gael gafael ar wybodaeth a chyngor clir a pherthnasol am yr holl wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y staff sy'n darparu'r gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn meddu ar y sgiliau priodol i helpu pobl awtistig.

Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion) sy'n nodi:

- Proses ar gyfer asesu anghenion gofal a chymorth unigolyn, neu anghenion cymorth yn achos gofalwyr.
- Proses gyffredin sy'n gymwys i bawb - plant, oedolion a gofalwyr.
- Proses gyffredin o adolygu ac ailasesu.

Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion) sydd yn:

- Pennu ar ba bwynt y bydd gan unigolyn hawl y gellir ei gorfodi i gael cymorth gan yr awdurdod lleol ac y bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu neu drefnu gofal a chymorth.
- Pennu meini prawf cymhwysra a fydd yn berthnasol i bawb - plant, oedolion a gofalwyr.
- Pennu gofynion cynllun gofal a chymorth.
- Pennu'r amgylchiadau sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol wrth wneud taliadau uniongyrchol.

### *Asesu Anghenion*

Mae Rhan 3 o God Ymarfer (adran 16) Deddf GCLIC yn datgan bod gan unrhyw unigolyn neu deulu sydd ag anghenion gofal a chymorth hawl i gael asesiad ar sail yr anghenion hynny ac y dylai'r asesiad a gynhelir fod yn gymesur â'r cais neu'r angen sy'n cael ei gyflwyno. Mae'n rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gan ymarferwyr y wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu asesiad sy'n adlewyrchu graddau'r anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu cyflwyno, er mwyn i ddyfnder a manylder yr asesiad a'r broses cynllunio gofal a chymorth fod yn briodol i anghenion yr unigolyn. Bydd y broses asesu'n dechrau'n aml pan fydd person yn dechrau defnyddio'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Fodd bynnag, nid hon yw'r unig ffordd o wneud atgyfeiriad.

Diben asesiad am ofal a chymorth yw gweithio gyda'r unigolyn, gofalwr, teulu ac unigolion perthnasol eraill i ddeall anghenion, galluoedd, ac adnoddau'r person a'r canlyniadau y mae'n dymuno eu cyflawni, a nodi'r ffordd orau o'i gefnogi i'w cyflawni. Mae'r broses yn mynnu bod ymarferwyr yn gweithio'n gydgyhyrchiol gyda'r unigolyn

neu'r personau cysylltiedig i nodi'r hyn sy'n wirioneddol bwysig iddynt a'u helpu i'w gyflawni.

Mae asesiadau effeithiol yn brofiadau gwerthfawr ynddynt eu hunain yn ogystal â bod yn gatalydd ar gyfer helpu rhywun i gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Dylai'r asesiad ddatblygu dealltwriaeth well o sefyllfa rhywun, nodi'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'i amgylchiadau penodol a chreu cynllun ar gyfer y ffordd y bydd yn cyflawni ei ganlyniadau personol.

### *Cymhwysra am Ofal a Chymorth*

Cyflwynodd Deddf GCLIC a'i rheoliadau cysylltiedig feini prawf cymhwysra yn seiliedig ar ddatblygiad o bum elfen sy'n cyd-berthyn er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ystyried amgylchiadau'r person yn eu cyfanrwydd. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud y canlynol:

- asesu ac ystyried amgylchiadau'r person.
- ystyried ei ganlyniadau personol.
- asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny.
- asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r person neu bobl eraill os na chaiff y canlyniadau hynny eu cyflawni.
- asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd person.

Bydd yr asesiad yn deillio o drafodaethau rhwng yr unigolyn, teulu, personau cysylltiedig a'r ymarferwyr, gyda'r nod o nodi'r ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y person. Bydd yn rhaid i'r broses asesu ganolbwyntio ar ganlyniadau personol yr unigolyn, nodi risgiau i'r person neu eraill, archwilio a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau ac ystyried pa gryfderau a galluoedd sydd gan y person a fydd yn helpu i gyflawni ei ganlyniadau. Drwy hyn, bydd yn rhaid i'r asesiad nodi pa ddatrysiadau sydd eu hangen a'r ffordd y cânt eu cyflenwi. Dylai arbenigwr sydd wedi bod yn rhan o'r broses asesu hefyd fod yn rhan o'r broses o gynllunio'r gofal a'r cymorth.

Bydd yn rhaid i'r pum elfen a restrir uchod gael eu hystyried yn ystod y broses asesu, ac o hyn, deuir i gasgliad o ran a yw pob un o'r anghenion a nodwyd yn angen cymwys a bod yn rhaid ei ddiwallu drwy ddarparu gofal a chymorth, neu a oes modd ei ddiwallu drwy wasanaethau gwybodaeth, gwasanaethau cyngor neu wasanaethau ataliol.

Mae Rhan 3 o'r Cod Ymarfer, paragraffau 80-91, yn nodi ystyriaethau ychwanegol ar gyfer asesu anghenion plant a'r anghenion sy'n cael eu diwallu gan ofalwyr.

Bydd asesiad yn dod i un o'r casgliadau canlynol:

- nid oes unrhyw anghenion i'w diwallu.
- mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a allai gynnwys asesiadau mwy arbenigol.
- gall yr anghenion gael eu diwallu drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth.
- gall yr anghenion gael eu diwallu drwy ddarparu gwasanaethau ataliol.



- gall yr anghenion gael eu diwallu, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, gan yr unigolyn ei hun (gyda neu heb
- gymorth gan bobl eraill).
- gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu ddiwallu'r anghenion fel arall.
- dim ond drwy gynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth y gall yr anghenion gael eu diwallu.

Mae'n hanfodol bod aseswyr gofal cymdeithasol yn deall anghenion pobl awtistig, er mwyn iddynt allu cynnig y cyngor a'r cymorth mwyaf priodol. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ymarferwyr sy'n cynnal asesiad o anghenion gyda pherson awtistig wedi cael hyfforddiant awtistiaeth perthnasol, sy'n diwallu ei anghenion proffesiynol, fel y nodir yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a ddisgrifir yn **adran 3** o'r ymgynghoriad hwn.

### *Cymhwysra a Chyniferydd Deallusrwydd (IQ)*

Mewn rhai ardaloedd, codwyd pryderon am bobl awtistig a allai gael eu hatal rhag cael asesiad o anghenion am fod ganddynt IQ uchel. Nid yw'r meini prawf cymhwysra ar gyfer gofal a chymorth o dan Ddeddf GCLIC yn cyfeirio o gwbl at IQ ac ni ddylai fod yn ffactor wrth asesu angen unigolyn am ofal a chymorth. Ym mhob achos, mae'r meini prawf yn cynnwys gofyniad am y ffordd y mae'r angen dan sylw yn amlygu'i hun, p'un a yw'n ymwneud ag un o'r ffactorau sy'n ymwneud â llesiant, a ph'un a all yr angen gael ei ddiwallu gan y person ar ei ben ei hun neu gyda chymorth gan eraill, a ph'un a yw'r person yn debygol o gyflawni canlyniadau personol ai peidio heb i'r awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth.

### *Pontio*

Bydd pawb yn cael profiad o amrywiaeth o gyfnodau pontio yn ystod eu bywydau, a gall pob un ohonynt beri straen, a gall y cyfnodau hyn fod yn arbennig o anodd i bobl awtistig, yn enwedig oherwydd y gall fod newidiadau i'w hamgylchedd yn ogystal â newidiadau i'r gwasanaethau a'r cymorth. Rhaid cynllunio ar gyfer cyfnodau pontio'n ofalus ymlaen llaw er mwyn eu gwneud mor llyfn â phosibl. Un o'r cyfnodau pontio pwysicaf fydd newid i fod yn oedolyn, pan fydd pobl ifanc yn symud i wasanaethau oedolion neu'n gadael yr ysgol.

Mae'r cofnod pontio o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant i wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn newid sylweddol yn amgylchiadau'r unigolyn ac yn creu'r hawl i gael ailasesiad o anghenion. Rhaid i awdurdod lleol adolygu asesiad lle bo newidiadau i amgylchiadau yn golygu bod angen ailystyried pum elfen allweddol yr asesiad. Gall yr unigolion eu hunain hefyd wneud cais am adolygiad ac ailasesiad, pan fydd amgylchiadau personol wedi newid.

I blant a phobl ifanc sy'n mynd drwy gyfnod pontio yn eu haddysg, yn enwedig wrth adael yr ysgol i fynd i addysg bellach neu wasanaeth arall, mae Deddf Anghenion Dysgu a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018 yn cynnwys pennod benodol am bontio. Bydd cod ALNET, yn yr adran sy'n ymdrin â gweithio amlasiantaeth, yn cyfeirio'n amlwg at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r cymorth arall sydd ar gael. Bydd y cod hwn

yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ddefnyddio'r safon briodol o Gynllun Datblygu Unigol fel y'i nodi yn y cod anghenion dysgu ychwanegol.

### *Gwasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion ag awtistiaeth.*

Nid yw Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), yn yr un modd â darpariaeth ehangach y GIG, yn rhoi blaenoriaeth i drin unrhyw grŵp neu garfan benodol. Yn hytrach, cred ganolog darpariaeth y GIG yw ei bod wedi'i seilio ar angen clinigol yr unigolyn, a bod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheini sydd â'r angen clinigol mwyaf.

Ar gyfer pobl ifanc â salwch meddwl sy'n cyd-ddigwydd, bydd gwasanaethau CAMHS yn darparu ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl (naill ai ar lefel gofal sylfaenol mewn Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Lleol) neu mewn gwasanaethau arbenigol ar gyfer y rheini sydd â salwch meddwl mwy difrifol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno targedau newydd ar gyfer amseroedd aros o 28 diwrnod ar gyfer cael mynediad i wasanaethau CAMHS.

Amcangyfrir bod gan tua 40% o bobl awtistig anableddau dysgu hefyd. Mae plant ag anableddau dysgu ac awtistiaeth sy'n cyd-ddigwydd yn cael mynediad i wasanaethau diagnostig drwy dimau plant lleol, neu drwy'r gwasanaethau niwroddatblygiadol a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae cyfansoddiad y timau yn amrywio. Gall rhai gyflawni rôl gyffredinol gan gynnwys pediatregwyr ac ymarferwyr eraill, gan gynnwys nyrsys plant, a gall rhai eraill fod yn dimau anableddau dysgu plant arbenigol, yn cynnwys seiciatryddion a nyrsys anableddau dysgu.

### *Gwasanaethau i blant ac oedolion ag awtistiaeth a chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd.*

I blant ag anableddau dysgu ac awtistiaeth sydd angen gofal iechyd, caiff y gwasanaethau eu darparu fel arfer gan yr un timau sy'n ymgymryd â'r diagnosis. Bydd oedolion sydd ag anghenion gofal iechyd fel arfer yn cael mynediad i dimau anabledd dysgu cymunedol. Bydd rhai plant yn mynd i ysgolion arbennig ac yn cael mynediad i rywfaint o'u cyfraniad arbenigol drwy'r ysgol, a bydd nyrs ysgolion arbennig yn eu cefnogi. Mae'n bosibl y gall plant ac oedolion gael mynediad i ofal cymdeithasol megis gwasanaeth preswyl.

I rai pobl sydd ag anableddau dysgu difrifol neu ddwys iawn ac sydd efallai â phroblemau ymddygiad ychwanegol neu broblemau iechyd meddwl hefyd, ceir rhai lleoliadau iechyd arbenigol, a allai fod yn y sector preifat.

## **Rhaid i Awdurdodau Lleol**

### **Dyletswyddau**

- Sicrhau bod pobl ag awtistiaeth yn ymwybodol o'r hawl i gael gafael ar asesiad anghenion ac asesiad gofalwyr i ofalwr. Dylai'r broses o sicrhau asesiad, alinio â'r broses ddiagnostig a chael ei chynnig ar y cam diagnosis, gan wneud atgyfeiriad yn ôl yr angen.

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael am wasanaethau awtistiaeth lleol fel rhan o'u Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Sicrhau nad yw IQ yn rhan o'r meini prawf cymhwystra ar gyfer asesiad o anghenion o dan Ddeddf GCLIC .

### **Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol**

- Wneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd sylfaenol yn ymwybodol o wasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol a chael llwybr clir ar gyfer atgyfeirio.

### **Dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol**

- Annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth.
- Sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith i bobl ag awtistiaeth ac anableddau dysgu er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar wasanaethau yn yr un ffordd â phawb arall.
- Sicrhau, lle y nodir angen i wasanaethau arbenigol gael eu darparu, bod y gwasanaethau hynny ar gael.

### **Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar y cyd**

Sicrhau bod swyddog arweiniol awtistiaeth yn cael ei benodi ym mhob ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol ar lefel ddigon uchel i gynrychioli anghenion pobl awtistig. Bydd hyn yn cynnwys:

- Rhoi adroddiadau rheolaidd i'r bwrdd ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth.
- Goruchwyllo gwaith cyd-gomisiynu a'r trefniadau cyflenwi ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth .
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn effeithiol yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau awtistiaeth.
- Lle bo gan bobl awtistig gyflyrau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai fod llwybrau ar gael i'w gwneud yn bosibl iddynt gael gafael ar wasanaethau asesu a all ddiwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn cysylltiad ag awtistiaeth.

### **Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Sicrhau ei fod yn cymryd rhan yn y gwaith wrth ddatblygu'r dasg o gynllunio'r gweithlu lleol a bod meddygon teulu ac ymarferwyr gofal sylfaenol yn ymgysylltu â'r

### **ADRAN 3. Trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant**

#### *Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth*

Mae'n dda gweld y cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned ac mae llawer mwy o weithwyr proffesiynol yn deall yr angen i addasu'u hymarfer bellach er mwyn diwallu anghenion penodol pobl awtistig. Mae'r Tîm Datblygu ASD Cenedlaethol wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu'n gyflym â nod penodol o gynnwys pobl awtistig wrth ddatblygu a lleadaenu adnoddau. Mae gwefan ASDinfowales yn darparu adnoddau codi ymwybyddiaeth sy'n addas ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Mae taflen ar yr adnoddau sydd ar gael i'w gweld yn atodiad un. Er enghraifft, mae'r rhaglen Weli Di Fi? yn darparu adnoddau gan gynnwys adnoddau yn esbonio profiad pobl awtistig a'r addasiadau y gellir eu gwneud i ddarparu cymorth.

#### *Asesu Anghenion Hyfforddi'r Gweithlu*

Drwy weithredu'r Strategaeth ASD a gwaith y Tîm Datblygu ASD Cenedlaethol, mae llawer mwy o weithwyr proffesiynol wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygu er mwyn deall anghenion pobl awtistig a sut i addasu eu hymarfer er mwyn darparu cymorth wedi'i deilwra. Dylai bod gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n cefnogi pobl awtistig lefel briodol o wybodaeth a sgiliau o ran awtistiaeth er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol. Mae'n rhaid i bobl awtistig fod yn hyderus y byddant yn derbyn cyngor a chymorth o ansawdd uchel, yn seiliedig ar dystiolaeth.

Er mwyn sicrhau bod hyfforddiant priodol ac o ansawdd da ar gael, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn datblygu amrywiaeth eang o adnoddau hyfforddi, wedi'u targedu at wahanol grwpiau proffesiynol. Gellir gweld yr amrywiaeth lawn ar wefan ASDinfowales. Darperir taflen yn atodiad un, sy'n cynnwys:

- Y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth - ar gyfer lleoliadau o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg bellach.
- Gweithio gydag Awtistiaeth – adnoddau cyflogaeth.
- Byw gydag Awtistiaeth – adnoddau byw'n annibynnol.
- Tyfu gydag Awtistiaeth – adnoddau i blant.
- Adnoddau diagnostig i weithwyr proffesiynol.
- Adnodd ymarferwr i weithwyr proffesiynol.

Mae'n bwysig bod byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol a'u partneriaid yn hyderus bod gan bob aelod o'u staff lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i allu darparu cymorth effeithiol i bobl awtistig y maent yn gweithio gyda nhw. Mae CLILC wedi addasu arfer da presennol i ddatblygu'r Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol<sup>12</sup>, a fydd yn helpu sefydliadau i asesu anghenion hyfforddiant awtistiaeth ar gyfer ystod eang o staff proffesiynol, gan helpu i sicrhau y gallant gael gafael ar y lefel gywir sy'n ofynnol ar

<sup>12</sup>CLILC – Y Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol i Gymru

<https://www.asdinfowales.co.uk/resource/Training-Framework-digital-eng.pdf> cyrchwyd 29 Hydref 2018.

gyfer eu rolau. Anogir sefydliadau i fabwysiadu'r Fframwaith, wrth asesu anghenion hyfforddi a datblygu pob aelod o'u staff. Mae'n disgrifio'r lefel o wybodaeth am awtistiaeth sy'n briodol ar gyfer pob math o rôl ac yn eu cysylltu â'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfowales.

Mae'r Fframwaith wedi'i atodi yn atodiad dau. Ceir sgiliau ar bedair lefel sef:

### **Ymwybodol o Awtistiaeth**

- Rwy'n debygol o weithio mewn rôl sy'n wynebu'r cyhoedd ond byddwn ond yn gwybod bod rhywun yn awtistig pe bai rhywun yn fy ngwneud yn ymwybodol o hynny.

### **Gwybod am Awtsitiaeth**

- Rwy'n debygol o weithio mewn rôl lle gallwn ddod i gysylltiad, fel rhan o'm gwaith o ddydd i ddydd, ag unigolion sydd â nodweddion posibl o awtistiaeth, er nad wyf efallai yn ymwybodol o hynny.
- Mae'n bosibl y byddaf yn dod i gysylltiad ag unigolion ag awtistiaeth yn fy ngwaith o ddydd i ddydd ac efallai y bydd angen i mi allu nodi pan fo ymatebion neu ymddygiadau rhywun yn ymddangos yn anghyffredin a bod angen i mi addasu fy ymddygiad fy hun.

### **Medrus o ran Awtistiaeth**

- Rwy'n gweithio mewn gwasanaeth lle y gallwn ddod i gysylltiad â phobl ag awtistiaeth. Efallai bod fy ngwaith yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y person, ond mae angen i mi allu nodi awtistiaeth bosibl er mwyn i mi allu addasu fy ymarfer.
- Mae angen i mi fod yn ymwybodol o awtistiaeth er mwyn addasu fy ymarfer ac i wneud atgyfeiriad yn ei gylch os ydw i'n ansicr ac angen eglurhad am ddiagnosis, y cymorth a gaiff y person, dulliau rheoli neu ymyrryd.

### **Gallu Uwch o ran Awtistiaeth**

- Fel rhan o'm rôl, efallai y byddaf yn rhan o asesiadau diagnostig tîm neu'n cynnal sgrinio cychwynnol fel rhan o asesu unigolion yn fy ngwasanaeth er mwyn gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol am ddiagnosis gwahanol neu ail farn.
- Rwy'n debygol o weithio mewn tîm lle gallwn ddod i gysylltiad, fel rhan o'm gwaith o ddydd i ddydd, ag unigolion sydd â nodweddion posibl o awtistiaeth.
- Yn fy ngwaith rheoli ac ymyrryd rheolaidd, mae angen i mi fod yn ystyriol o bobl ag awtistiaeth a chynnal sgrinio ac asesiadau cychwynnol er mwyn addasu fy ymarfer.

- Os yw'n achos mwy cymhleth, efallai y bydd angen i mi atgyfeirio at wasanaethau arbenigol am asesiad llawn neu geisio goruchwyliaeth arbenigol wrth gynnal fy asesiad.

### *Hyfforddiant ar gyfer galwedigaethau iechyd arbenigol*

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 140, yn nodi bod rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn fater wedi'i gadw, sy'n golygu na all Llywodraeth Cymru ddeddfu yn y maes hwn ac eithrio yn achos y galwedigaethau gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru rôl wrth hyrwyddo arfer da ac annog byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar hyfforddiant priodol ar awtistiaeth. Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol yn adnodd defnyddiol i alluogi bwrdd iechyd i asesu anghenion hyfforddi ei weithlu. Mae'r Tîm Datblygu Cenedlaethol hefyd wedi datblygu adnoddau gwybodaeth ar gyfer rhai galwedigaethau megis meddygon teulu. Mae gweithwyr proffesiynol medrus yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol hefyd yn rhoi cyngor a hyfforddiant i grwpiau proffesiynol eraill sy'n cefnogi pobl awtistig er mwyn meithrin gallu a datblygu sgiliau lleol.

### *Gwasanaethau Gofal Sylfaenol*

Bydd yn rhaid i ymarferwyr gofal sylfaenol ddarparu gofal i bobl awtistig yn aml. Bydd y rhain yn cynnwys meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, optegwyr a deietegwyr. Mae'n bwysig bod byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn darparu llwybrau clir at gyngor ychwanegol a chyfeirio unigolion at wasanaethau eraill a all ddarparu cymorth wedi ei deilwra i bobl awtistig sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer ASD wedi datblygu rhai adnoddau sydd â'r nod o roi cyngor ychwanegol i weithwyr proffesiynol allweddol, er enghraifft canllawiau i feddygon teulu.

### *Gwybodaeth a Hyfforddiant i Staff Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol*

Mae'r rheoliadau gwasanaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol feddu ar y cymwysterau addas a chael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rolau. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, y rheoleiddiwr a'r corff datblygu ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, yn gyfrifol am hyffordd a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Mae Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Gwasanaeth Datblygu Addysg Gweithlu'r GIG (WEDS) wedi cydweithio i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a fydd yn cael ei gweithredu o fis Medi 2019; a bydd yn parhau i gynnig amrywiaeth o lwybrau ar gyfer meysydd gwasanaeth gwahanol.

Bydd y cymwysterau hyn yn cynnwys unedau penodol ar wahanol gyflyrau, gan gynnwys awtistiaeth, a bydd y penderfyniadau am ba unedau i'w dilyn yn cael eu gwneud gan y dysgwyr, y cyflogwr a'r darparwr dysgu, a byddant yn adlewyrchu anghenion y dysgwyr mewn perthynas â'i rôl.

Ar hyn o bryd, ceir unedau galwedigaethol ar gyfer gweithwyr sy'n cefnogi unigolion awtistig yn rhan o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel 2, 3 a 5. Fel rhan

o'r gwaith o ddatblygu'r gyfres newydd o gymwysterau, bydd llwybrau yn ymwneud ag awtistiaeth yn cael eu cynnwys yn lefelau 2, 3, a 5; a bydd cymhwyster ymarferwr arbenigol ychwanegol ar gael ar lefel 4.

### *Mynediad i Hyfforddiant Awtistiaeth*

Pan fydd sefydliadau yn deall anghenion hyfforddi eu staff, dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod hyfforddiant addas yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r hyfforddiant a ddarperir fod o ansawdd uchel ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hanfodol ei fod, lle y bo'n ofynnol, yn bodloni safonau proffesiynol ac wedi'i achredu gan y cyrff hyfforddi perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnig amrywiaeth o raglenni hyfforddiant ar awtistiaeth ac mae sefydliadau yn y trydydd sector, megis y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, sydd hefyd yn cynnig rhaglen o hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ac i rieni a gofalwyr.

### *Cynnwys pobl awtistig yn y gwaith o ddatblygu hyfforddiant*

Dylai hyfforddiant ar awtistiaeth bob amser gael ei ddatblygu mewn partneriaeth â phobl awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith Cyfranogiad Oedolion er mwyn sicrhau bod llais pobl awtistig yn llywio unrhyw hyfforddiant ac adnoddau y byddwn yn eu darparu. Yn ogystal, rydym yn gweithio'n agos gyda'r fforwm Rhiant Ofalwyr Cenedlaethol er mwyn cael barn rhieni sy'n ofalwyr.

### *Ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol a'u cynnwys*

Gellir ond cynllunio a chyflenwi gwasanaethau awtistiaeth yn llwyddiannus drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheini sydd yn ceisio cymorth a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae dull gweithredu cyd-gynhyrchu yn galluogi comisiynwyr i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, lle y ceir bylchau yn y ddarpariaeth a lle y gellir gwella gwasanaethau presennol er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd a'r galw am gymorth.

Yn adran 4, ceir crynodeb o rôl yr Hyrwyddwr ASD Rhanbarthol. Argymhellir bod gan yr hyrwyddwr rôl bwysig hefyd wrth sicrhau bod lleisiau rhanddeiliaid i'w clywed yn ddigonol a bod y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn eu hystyried.

### **Rhaid i Awdurdodau Lleol**

- Sicrhau bod gan unrhyw berson sy'n cynnal asesiad o anghenion o dan Ddeddf GCLIC y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad. Lle nad oes gan yr aseswr brofiad yn y cyflwr, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymgynghorir â pherson sydd yn meddu ar yr arbenigedd hwnnw.
- Fel rhan o'u dyletswyddau o dan Ddeddf GCLIC, sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor yn darparu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau gwasanaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol feddu ar y cymwysterau addas a chael yr hyfforddiant sydd ei angen

arnynt i gyflawni eu rolau.

### Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol

- Sicrhau bod gan weithwyr iechyd proffesiynol y wybodaeth a'r hyfforddiant ar awtistiaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud eu gwaith, gan ymgysylltu â chyrrff proffesiynol arbenigol lle y bo'n berthnasol.
- Sicrhau bod gan unrhyw berson sy'n cynnal asesiad o anhwylder yn y sbectwm awtistig gydag unigolyn y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sy'n ofynnol i gynnal yr asesiad a darparu diagnosis.
- Sicrhau bod ymarferwyr iechyd sylfaenol yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol, ac y ceir llwybrau atgyfeirio clir.

### Dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol

- Sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn cael ei gynnwys yn y rhaglenni hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a gynigir i'r holl staff sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Fel rhan o'r gwaith o gynllunio'r gweithlu, asesu anghenion hyfforddiant awtistiaeth pob aelod o'u staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi lefel yr hyfforddiant sydd ei angen, yn unol â rolau a chyfrifoldebau eu swyddi. Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol yn darparu adnodd asesu defnyddiol.
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.
- Gwneud trefniadau i sicrhau y gall yr holl staff gael gafael ar yr hyfforddiant a nodir er mwyn diwallu eu hanghenion hyfforddiant o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth.
- Lle y nodir bod angen hyfforddiant arbenigol, sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn ystyried canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).
- Sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant briodol ar gael yn barhaol, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer staff newydd a staff presennol sy'n newid eu swyddi.
- Sicrhau bod pobl ag awtistiaeth a'u rhieni a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chyflenwi hyfforddiant ar awtistiaeth. Gallai hyn gynnwys ymgynghori ar ddeunyddiau hyfforddi neu fod yn rhan o gyflenwi'r hyfforddiant.



## Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Sicrhau ei fod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cynllunio'r gweithlu lleol a bod meddygon teulu ac ymarferwyr gofal sylfaenol yn ymgysylltu â'r agenda hyfforddiant mewn perthynas ag awtistiaeth.

## ADRAN 4. Trefniadau ar gyfer Cynllunio a Monitro Gwasanaethau

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynllunio a chyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol.

Mae Deddf GCLIC yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth. Mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd lunio cynlluniau ardal sy'n nodi'r ffordd y byddant yn ymateb i'r asesiad drwy ddarparu gwasanaethau a chymorth<sup>13</sup>.

Sefydlodd Rhan 9<sup>14</sup> o Ddeddf GCLIC saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dilyn ôl-troed ardaloedd y byrddau iechyd. Mae'r byrddau hyn yn dwyn ynghyd iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector, dinasyddion a phartneriaid eraill. Eu diben yw ysgogi integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwella canlyniadau pobl a'u llesiant a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a gyflenwir.

Mae gan y byrddau gyfrifoldeb penodol dros gyflenwi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ym mhob rhanbarth. Mae cyd-gynhyrchu yn egwyddor allweddol yn Neddf GCLIC ac mae'n ofynnol i bartneriaethau rhanbarthol weithio gyda phobl i ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau integredig.

### *Asesiadau poblogaeth*

Mae Rhan 2 o Ddeddf GCLIC yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynnal asesiad poblogaeth ar y cyd, i weld i ba raddau y mae yna bobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cymorth, a dylid ei gynnal mewn partneriaeth. Mae'n rhaid i'r asesiad hwn nodi hefyd:

- Y graddau nad yw'r anghenion hynny yn cael eu diwallu.
- Yr amrywiaeth o wasanaethau ar wahanol lefelau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

<sup>13</sup> Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru (2014) mewn perthynas â chynlluniau ardal o dan Adran 14A <http://gov.wales/docs/dhss/publications/170404sguideen.pdf>

<sup>14</sup> Canllawiau Statudol, Rhan 9, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part9en.pdf>

- Yr amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gyflenwi'r gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol yn ôl Adran 15 o'r Ddeddf.
- Sut y caiff y gwasanaethau hyn eu cyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg.

Diben yr asesiad o'r boblogaeth yw sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn llunio sail dystiolaeth glir a phenodol mewn perthynas â'r anghenion gofal a chymorth, ac anghenion gofalwyr yn eu hardal. Bydd hyn yn tanategu'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau statudol er mwyn llywio penderfyniadau cynllunio a phenderfyniadau gweithredol.

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn ofyniad wrth ddatblygu asesiadau poblogaeth, ac mae'n rhaid cynnwys amrywiaeth eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau yn y broses o gynnal yr asesiad poblogaeth. Mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau asesiadau poblogaeth unwaith yn ystod pob cylch etholiadol llywodraeth leol.

### *Awtistiaeth fel Thema Graidd*

Ar hyn o bryd, mae asesiadau poblogaeth yn cynnwys wyth thema graidd, gan gynnwys anabledau dysgu/awtistiaeth fel un thema fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer a Rhan 2 o'r Ddeddf. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol). Ar y cyfle nesaf, byddwn yn diwygio'r Cod Ymarfer i wneud awtistiaeth yn thema annibynnol.

### *Cynlluniau ardal*

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol lunio cynlluniau ardal mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, gan gwmpasu'r un themâu craidd â'r asesiadau poblogaeth, gan gynnwys anabledau dysgu/awtistiaeth. Cafodd y cynlluniau ardal cyntaf eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2018. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y canllawiau statudol mewn perthynas â chynlluniau ardal o dan adran 14A. Mae'r asesiadau poblogaeth a'r cynlluniau ardal wedi cael eu cyhoeddi<sup>15</sup>.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adolygu eu hasesiadau poblogaeth a'u cynlluniau ardal ac i lunio adroddiadau blynyddol, gan nodi eu cynnydd yn erbyn y cynlluniau ardal.

### *Casglu Data ar Awtistiaeth*

Mae asesiad llwyddiannus o anghenion y boblogaeth yn dibynnu ar ddata o ansawdd da er mwyn deall y galw am gymorth a'r amrywiaeth o anghenion cymorth a allai amlygu eu hunain yn y boblogaeth leol. Yn yr un modd, mae datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar iechyd yn ddibynnol ar wybodaeth sylfaenol i asesu'r galw am y gwasanaethau sy'n ofynnol a'u cwmpas. Bu dadlau ers amser hir ynghylch pa ddata y dylid eu casglu er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae'n anodd iawn pennu pa mor gyffredin yw awtistiaeth gan fod data ar gael yn aml ar gyfer y rheini sy'n ceisio cymorth gan wasanaethau, ac mae llawer o unigolion sydd heb gael diagnosis neu nad ydynt yn dymuno defnyddio gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gyfradd cyffredinrwydd y cytunir arni, a gefnogir gan y Gymdeithas

<sup>15</sup><http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/population/?lang=en>

Genedlaethol Awtistiaeth, sy'n amcangyfrif bod tua 1% o'r boblogaeth yn awtistig. O'r grŵp hwn, ni allwn fod yn siŵr o nifer yr unigolion nad oes angen cymorth arnynt gan wasanaethau statudol.

Mae derbyn 1% fel y llinell sylfaen o ran cyffredinrwydd yn bwysig er mwyn deall y galw am y gwasanaethau presennol a nodi ble y gall fod bylchau yn y cymorth. Nid oes un ffordd o gasglu'r wybodaeth hon, yn enwedig ar gyfer y rheini nad ydynt yn ymgysylltu â'r gwasanaethau. Mae unrhyw ddull o gasglu data yn rhoi ystyriaeth ofalus i ddiogelwch data, sydd bellach wedi'i ddiweddarau yn Neddf Diogelu Data 2018, yn enwedig y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Wrth gynllunio gwasanaethau awtistiaeth, dylai partneriaethau rhanbarthol ystyried amrywiaeth eang o ddata ar y gwasanaethau a gyflenwir. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data lefel uchel ar awtistiaeth fel rhan o'i gwaith ehangach o gasglu data. Mae hyn yn cynnwys:

- Deddf GCLIC - Pobl sy'n derbyn Gofal a Chymorth
- Safon amser aros 26 wythnos ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol - plant (wedi'i gynllunio ar gyfer oedolion)
- Ysgolion – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
- Cyfrifiad Plant Cymru sy'n derbyn Gofal a Chymorth

### *Monitro a Gwella Gwasanaethau*

Ni ddylai'r data a gesglir ganolbwyntio ar nifer yr unigolion sy'n cael eu diagnosio neu sy'n derbyn gwasanaethau yn unig, gan na all hyn ar ei ben ei hun ddarparu gwybodaeth am y canlyniadau a gyflawnir drwy ymyriadau'r gwasanaethau nac ansawdd y gwasanaethau a dderbynnir. Mae angen data ansoddol, mwy cyfoethog i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau. I'r perwyl hwn, datblygwyd mesurau canlyniadau gan y ffrwd gwaith niwroddatblygiadol, Together for Children and Young People, a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae ymyriadau'r gwasanaethau wedi help unigolion a'u teuluoedd yn eu bywydau bob dydd. Mae'r dull hwn o weithio hefyd yn helpu i nodi ble y gall fod bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Hwn yw'r dull a ddefnyddir i gasglu data am ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau niwroddatblygiadol, ac mae wedi'i nodi'n glir yn y canllawiau cyfredol.

*“Guidance on the Delivery of Neurodevelopmental Services in Wales data collection questions.”*

<http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/2018-06-20%20Audit-%20data%20collection%20questions%20Final.pdf>

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn datblygu dull cadarn a rennir o gasglu data sydd nid yn unig yn casglu gwybodaeth am y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ond sydd, yn bwysicach fyth, yn ceisio dangos sut mae'r ymyriadau y cytunwyd arnynt wedi cael effaith gadarnhaol a pharhaus ar yr unigolyn. Y nod yw datblygu cydnerthedd ac atal yr angen am gymorth pellach neu gymorth mwy dwys.

## *Cynnwys Rhanddeiliaid*

Rhaid i'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth gael ei lywio gan rhanddeiliaid lleol, i roi adborth ar wasanaethau presennol a chynghori ble y mae'r bylchau yn y ddarpariaeth y mae angen mynd i'r afael â nhw. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol wneud yn siŵr fod ymgysylltiad â phobl awtistig a'u grwpiau cynrychioliadol er mwyn sicrhau y gwrandewir ar rhanddeiliaid a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion a nodwyd. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl hanfodol wrth hwyluso'r ymgysylltiad hwn. Bydd gan lawer o awdurdodau lleol Swyddogion Arweiniol ASD a fydd â rhwydweithiau sefydledig o rhanddeiliaid y bydd modd eu defnyddio.

### *Rôl hyrwyddo awtistiaeth ranbarthol*

Mae'n bwysig bod anghenion pobl awtistig yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol mewn asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal a bod camau priodol yn cael eu cymryd ar lefel ranbarthol. Rydym yn cynnig y gallai byrddau partneriaeth rhanbarthol gyflawni hyn drwy benodi rôl hyrwyddo awtistiaeth ar bob bwrdd, a hynny ar lefel ddigon uchel i allu mynychu cyfarfodydd bwrdd ac adrodd ar ddatblygiad gwasanaethau awtistiaeth yn y rhanbarth, yn enwedig cyflenwi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Byddai'r hyrwyddwyr yn gyfrifol am oruchwylio ac unrhyw drefniadau cydgomisiynu, gan gynnwys cyflenwi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a gwasanaethau eraill i bobl awtistig. Bydd yr hyrwyddwr hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn cymryd rhan yn effeithiol yn y gwaith o gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth, ac yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu chwarae rhan egnïol yn y gwaith o ddatblygu'r gwasanaethau.

### **Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol**

- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion casglu data Safon Amser Aros ASD Llywodraeth Cymru.

### **Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ar y cyd**

- Gydymffurfio â dyletswyddau perthnasol yn Neddf GCLIC, Rhan 2 a 9, i sicrhau bod anghenion pobl awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Asesiadau Poblogaeth a Chynlluniau Ardal.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau awtistiaeth.
- Sicrhau bod hyrwyddwr awtistiaeth yn cael ei benodi ar lefel ddigon uchel i gynrychioli anghenion pobl awtistig. Bydd hyn yn cynnwys:
- Adrodd i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol ar y gwaith o gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth.
- Goruchwylio gwaith cyd-gomisiynu a'r trefniadau cyflenwi ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth.

- Sicrhau bod rhanddeiliad yn cymryd rhan yn effeithiol yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau awtistiaeth.



## Atodiad Un – Taflen Adnoddau ASD Info Wales



ASDInfoWales\_Reso ASDInfoWales\_Reso  
urces-leaflet\_CYM.pdurces-leaflet\_ENG(1).

## Atodiad Dau - Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar ASD



Training-Framework-  
digital-eng.pdf



Training-framework-  
digital-cym.pdf



## **Rhestr Termau**

ALN Anghenion Dysgu Ychwanegol

ALNET Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg 2018

ASD Anhwylder yn y Sbectwm Awtistig

ASD SAP Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectwm Awtistig

CAMHS Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

IAS Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

ALI Awdurdod Lleol

BILI Bwrdd Iechyd Lleol

LDD Anawsterau/Anabledau Dysgu

NAS Y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth

NICE Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol

T4CYP Together for Children and Young People

GCLIC Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

CLILC Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

C1 – ADRAN 1: Trefniadau ar gyfer asesu a diagnosis awtistiaeth mewn plant, pobl ifanc ac oedolion.

**A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau?** Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno <input type="text"/>	Tueddu i Gytuno <input type="text"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="text"/>	Anghytuno <input type="text"/>
-----------------------------	--------------------------------------	---	--------------------------------

Ydych chi'n credu y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Esboniwch.

C2 - ADRAN 2: Trefniadau ar gyfer Cael Gafael ar Ofal a Chymorth

**A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau?** Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno <input type="text"/>	Tueddu i Gytuno <input type="text"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="text"/>	Anghytuno <input type="text"/>
-----------------------------	--------------------------------------	---	--------------------------------

Ydych chi'n credu y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Esboniwch.

C3 – ADRAN 3: Trefniadau ar gyfer Asesu Anghenion Hyfforddiant a Darparu Hyfforddiant

**A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau?** Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno <input type="text"/>	Tueddu i Gytuno <input type="text"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="text"/>	Anghytuno <input type="text"/>
-----------------------------	--------------------------------------	---	--------------------------------

Ydych chi'n credu y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Esboniwch.

C4 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer **cynllunio** gwasanaethau awtistiaeth

**A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau?** Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno <input type="text"/>	Tueddu i Gytuno <input type="text"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="text"/>	Anghytuno <input type="text"/>
-----------------------------	--------------------------------------	---	--------------------------------

Ydych chi'n credu y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Esboniwch.

C5 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer **monitro** gwasanaethau awtistiaeth

**A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau?** Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno <input type="text"/>	Tueddu i Gytuno <input type="text"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="text"/>	Anghytuno
--------------------------------	---	--	-----------

Ydych chi'n credu y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Esboniwch eich ateb.

C6 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chodi Ymwybyddiaeth**

**A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn iawn i ddarparwyr gwasanaethau?** Os ydych chi'n credu bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod.

Cytuno <input type="text"/>	Tueddu i Gytuno <input type="text"/>	Tueddu i Anghytuno <input type="text"/>	Anghytuno
--------------------------------	---	--	-----------

Ydych chi'n credu y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Esboniwch.

Cwestiynau eraill

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a gaiff y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Ydych chi'n credu y caiff y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?**

Esboniwch

**Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?**

Esboniwch

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) sicrhau na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y byddent yn eu cael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Esboniwch

**Esboniwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y canllawiau, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau:**

- i) eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii) nad ydynt yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Esboniwch

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi**

Esboniwch